Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak

**This statement will be updated daily at midday**

***Statement: Updated at 12pm on Saturday 26 December 2020***

***Scroll down for FAQs***

Dr Chris Williams, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

"We hope everyone has had a healthy and safe Christmas. The lockdown restrictions remain and we advise everyone to stay at home as much as possible, and to limit your social contacts.

"Travellers who have been in or transited through South Africa in the last 10 days are no longer allowed into the UK. We advise anyone returning to Wales from South Africa to regularly check gov.uk for the latest guidance and advice on self-isolating.

"Welsh Government has announced that the advice to those who are clinically extremely vulnerable, previously 'shielding' has changed. Those people within this group should no longer attend work or school outside the home. The safest option for people within this group is not to be part of a Christmas Bubble and to limit contact with other people over the festive period.

"Public Health Wales is working with the Welsh Government, local health boards, local authorities and other partners following the announcement of national restrictions in Wales from midnight 20 December 2020.

"Under the new restrictions, people must stay at home, except for very limited purposes. People must not visit other households or meet other people they do not live with. Non-essential retail, close contact services, gyms and leisure centres, and hospitality will be closed.

"As indicated by the Welsh Government, the immediate introduction of new restrictions is related to the identification of a new more transmissible variant of Coronavirus. Public Health Wales has been working with UK partners to investigate and respond to this variant.

"It is normal for viruses to undergo mutations, and we expect this to happen. Although the variant is easier to transmit, there is currently no evidence that it is more severe.

"We are reminding people that all current guidance relating to Coronavirus continues to apply to the new variant, including advice relating to symptoms, social distancing, self-isolation, and vaccination.

"Public Health Wales will not be reporting Coronavirus data on its public facing data dashboard or social media channels on Friday 25 December or Friday 1 January.

"Users should be aware that there will be a backlog of data that will flow through to the system on Saturday 26 December and Saturday 2 January. Numbers reported on 27 December and 3 January will include new tests from two days' reporting.

"This will not affect individuals receiving their results, and anyone who tests positive will be contacted by their local authority's Test, Trace, Protect team in the usual way.

“The Public Health Wales public-facing data dashboard is a rapid reporting tool which is subject to correction and reconciliation. Official statistics are provided by the Office of National Statistics.

“The new variant shows up as positive in Public Health Wales’ existing Coronavirus tests, and people must continue to seek a test in the usual way if they develop Coronavirus symptoms.

“If you or a member of your household develop a cough, fever or change in sense of taste or smell, you must self-isolate immediately and book a free Coronavirus test, either by calling 119 or by clicking here.

“If you are due to travel out of the UK, please be aware of the changing situation and keep an eye on the FCO website for up to date details.

“Public Health Wales urges everyone to follow the rules, to avoid transmission of Coronavirus and to protect everyone in our communities, including the most vulnerable.”

**Frequently Asked Questions**

**Why has this new Coronavirus variant become such an issue suddenly?**

It is normal for viruses to mutate, and the new variant of Coronavirus that is now circulating in the UK is as a result of such a mutation.

We think the new variant has been circulating since at least 1 November 2020. So far, more than 1,400 cases have been identified in England, mainly in the South East. As of 14 December around 20 cases have been confirmed in Wales but the true figure is likely to be higher (several hundreds).

Experts are concerned about the impact of this particular variant because of how common it is, and how fast it spreads.

**This variant is easier to spread. Does that mean it requires more Personal Protective Equipment (PPE) for health and care staff?**

The key advice remain the same – that’s maintaining two-metre social distancing, washing hands, and use of personal protective equipment.

Health and social care workers should ensure that they have the correct PPE for the areas in which they are working, have been trained in the use of the PPE and use it correctly. It is also essential to ensure that these measures are observed in communal areas outside the clinical areas, like break areas, and when travelling to and from work.

**If I have the new variant, will the test pick it up?**

Yes. The current tests used in Wales are not affected by the changes in this variant and will still detect the virus.

**Is this widespread across Wales or just limited to South East Wales?**

The variant has been identified in all areas of Wales.

**How many cases have been identified in Wales so far?**

As of 14 December, 20 confirmed cases have been identified, but estimates suggest estimates suggest that approximately 11% of recent new cases (over 600) of COVID-19 are.

It is likely that the variant represents an even higher percentage of overall cases, and this percentage is increasing over time.

**When did we know of the first cases in Wales, and what actions have PHW been taking?**

It is difficult to tell when this variant started circulating in Wales, but we believe the earliest cases might be from around early November.

Wales is a member of the national Incident Management Team which is currently meeting daily, with wider meetings twice a week. Public Health Wales contribute daily case numbers based on sequencing data, and also an epidemiology summary for confirmed cases. Wales has contributed to a European Centre for Disease Prevention and Control (ECDC) rapid threat assessment on the variant. A protocol for a case-control method to estimate whether reinfections are more likely in variant cases has been developed in Wales and shared for use with Public Health England and Northern Ireland.

**Do clinicians need to make any changes to the management plan for treating their current Coronavirus patients?**

Currently there is no information to suggest that individuals affected with this variant strain require different type of care. This is will be kept under constant review.

**Does this affect the duration of self-isolation period?**

No, it does not. The current recommended period of self-isolation applies.

**I live in the South East region of Wales and have recently had a positive test for Coronavirus. How will I know if I was infected with the variant strain?**

Genomic analyses will tell us whether the strain that infected a particular individual is the new variant or not. However, not all positive tests are sequenced and there is usually a lag before sequencing results come through. There are, however, other indicators that give us an idea of how much of this variant is present here in Wales.

Currently there is no information to suggest that individuals affected with this variant strain require different type of care. This is will be kept under constant review.

**I live with someone who is the previous “shielding” group. Do I need to take additional precautions in the light of this new variant?**

You will need to continue to take all precautions outlined in the guidance, and people in the clinically extremely vulnerable group should take extra precautions to minimise contact with others in line with the advice given by the Chief Medical Officer for Wales

**Will there be more variants in the future?**

This is not the first variant of Coronavirus, and is unlikely to be the last. Different variants will have different effects on the course of this pandemic.

**Is it more harmful?**

There is currently no evidence showing that the variant is more severe than previous viruses. This is being monitored by ongoing surveillance and research.

**Should I be doing something differently or following the same rules as before?**

The main rules - handwashing, social distancing, and so on - have not changed. But increased restrictions have been announced because the variant is easier to spread and because case numbers have been going up.

**Does this virus spread more easily through medical procedures that cause patients to release particles from their lungs – also called 'aerosol generating procedures'?**

There is currently no evidence of any difference between this variant and others. But this is something that will be monitored closely going forward.

**I have recently received the COVID vaccine? Will it still be effective against this new variant?**

There is no evidence to suggest that this vaccine approved for use in the UK will not work against this variant. This will be monitored closely.

***Datganiad: Diweddarwyd 12yh Dydd Sadwrn 26 Rhagfyr 2020***

Dywedodd Dr Chris Williams, Cyfarwyddwr Digwyddiadau ar gyfer yr ymateb i'r achosion o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

"Rydym yn gobeithio bod pawb wedi cael Nadolig iach a diogel. Mae'r cyfyngiadau symud yn parhau ac rydym yn cynghori pawb i aros gartref gymaint â phosibl, ac i gyfyngu ar eich cysylltiadau cymdeithasol.

"Ni chaniateir i deithwyr sydd wedi bod yn Ne Affrica neu sydd wedi teithio drwy'r wlad honno yn ystod y 10 diwrnod diwethaf ddod i mewn i'r DU mwyach. Rydym yn cynghori unrhyw un sy'n dychwelyd i Gymru o Dde Affrica i ymweld â gov.uk yn rheolaidd am yr arweiniad a'r cyngor diweddaraf ar hunanynysu.

"Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y cyngor i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol, a oedd gynt yn 'gwarchod' eu hunain, wedi newid. Ni ddylai'r bobl hynny yn y grŵp hwn fynychu'r gwaith na'r ysgol y tu allan i'r cartref mwyach. Yr opsiwn mwyaf diogel i'r bobl yn y grŵp hwn yw peidio â bod yn rhan o Swigen Nadolig ac i gyfyngu ar gysylltiadau â phobl eraill dros gyfnod yr ŵyl.

"Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn dilyn cyhoeddi cyfyngiadau cenedlaethol yng Nghymru o hanner nos ar 20 Rhagfyr 2020.

"O dan y cyfyngiadau newydd, rhaid i bobl aros gartref, ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn. Rhaid i bobl beidio ag ymweld ag aelwydydd eraill na chwrdd â phobl eraill nad ydynt yn byw gyda nhw. Bydd manwerthu nad yw'n hanfodol, gwasanaethau cyswllt agos, campfeydd a chanolfannau hamdden, a lletygarwch ar gau.

"Fel y nododd Llywodraeth Cymru, mae cyflwyno cyfyngiadau newydd ar unwaith yn gysylltiedig â chanfod amrywiad newydd mwy trosglwyddadwy o'r Coronafeirws. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yn y DU i ymchwilio i'r amrywiad hwn ac ymateb iddo.

"Mae'n arferol i feirysau newid, ac rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd. Er bod yr amrywiad yn haws ei drosglwyddo, nid

oes tystiolaeth ar hyn o bryd ei fod yn fwy difrifol.

"Rydym yn atgoffa pobl bod yr holl ganllawiau cyfredol sy'n ymwneud â’r Coronafeirws yn parhau i fod yn berthnasol i'r amrywiad newydd, gan gynnwys y cyngor sy'n ymwneud â symptomau, cadw pellter cymdeithasol, hunanynysu, a brechu.

“Ni fydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd am ddata Coronafeirws ar ei ddangosfwrdd data cyhoeddus nac ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol ar ddydd Gwener 25 Rhagfyr nac ar ddydd Gwener 1 Ionawr.

“Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol y bydd ôl-groniad o ddata a fydd yn llifo i’r system ar ddydd Sadwrn 26 Rhagfyr ac ar ddydd Sadwrn 2 Ionawr. Bydd y niferoedd a adroddir ar 27 Rhagfyr a 3 Ionawr yn cynnwys profion newydd o ddeuddydd o adrodd yn ôl.

“Ni fydd hyn yn effeithio ar unigolion sy’n derbyn eu canlyniadau, a bydd timau Profi Olrhain Diogelu awdurdodau lleol yn cysylltu ag unrhyw un sy’n profi’n bositif yn y ffordd arferol.

“Offeryn adrodd cyflym at ddefnydd y cyhoedd yw dangosfwrdd data Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n cael ei gywiro a'i gysoni. Darperir ystadegau swyddogol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

"Mae'r amrywiad newydd yn dangos yn positif ym mhrofion Coronafeirws presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n rhaid i bobl barhau i gael prawf yn y ffordd arferol os ydynt yn datblygu symptomau’r Coronafeirws.”

“Os byddwch chi neu aelod o'ch aelwyd yn datblygu peswch, twymyn neu newid i synnwyr blasu neu arogli, rhaid i chi hunanynysu ar unwaith ac archebu prawf Coronafeirws am ddim naill ai drwy ffonio 119 neu drwy glicio yma.

“Os ydych i fod i deithio y tu allan i’r DU, byddwch yn ymwybodol o’r sefyllfa sy’n newid a chadwch lygad arwefan Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad am y manylion mwyaf diweddar.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn annog pawb i ddilyn y rheolau, i osgoi trosglwyddo Coronafeirws ac i ddiogelu pawb yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed.”

**Cwestiynau Cyffredin**

**Pam mae'r amrywiad newydd hwn ar y Coronafeirws wedi dod yn gymaint o broblem yn sydyn?**

Mae'n arferol i feirysau newid, ac mae'r amrywiad newydd ar y Coronafeirws sydd bellach yn cylchredeg yn y DU o ganlyniad i newid o'r fath.

Credwn fod yr amrywiad newydd wedi bod yn cylchredeg ers o leiaf 1 Tachwedd 2020. Hyd yma, mae mwy na 1,400 o achosion wedi'u nodi yn Lloegr, yn bennaf yn y De Ddwyrain. Ar 14 Rhagfyr mae tua 20 o achosion wedi'u cadarnhau yng Nghymru ond mae'r gwir ffigur yn debygol o fod yn uwch (cannoedd lawer).

Mae arbenigwyr yn pryderu am effaith yr amrywiad penodol hwn oherwydd pa mor gyffredin ydyw, a pha mor gyflym mae'n lledaenu.

**Mae'n haws lledaenu'r amrywiad hwn. A yw hynny'n golygu bod angen mwy o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer staff iechyd a gofal?**

Mae'r cyngor allweddol yn aros yr un fath – hynny yw, cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, golchi dwylo, a defnyddio cyfarpar diogelu personol.

Dylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau bod ganddynt y cyfarpar diogelu personol cywir ar gyfer yr ardaloedd maent yn gweithio ynddynt, eu bod wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol a'u bod yn ei ddefnyddio'n gywir. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau cadw at y mesurau hyn mewn ardaloedd cymunedol y tu allan i'r ardaloedd clinigol, fel mannau egwyl, ac wrth deithio i'r gwaith ac oddi yno.

**Os byddaf yn dal yr amrywiad newydd, a fydd y prawf yn ei ganfod?**

Bydd. Nid yw'r newidiadau yn yr amrywiad hwn yn effeithio ar y profion cyfredol a ddefnyddir yng Nghymru a byddant yn parhau i ganfod y feirws.

**A yw hwn yn gyffredin ledled Cymru neu'n gyfyngedig i Dde Ddwyrain Cymru?**

Mae'r amrywiad wedi'i ganfod ym mhob rhan o Gymru.

**Faint o achosion sydd wedi'u canfod yng Nghymru hyd yn hyn?**

Ar 14 Rhagfyr, mae 20 o achosion sydd wedi'u cadarnhau wedi'u canfod, ond mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod tua 11% o'r achosion newydd diweddar (mwy na 600) o COVID-19 yn achosion o'r amrywiad newydd.

Mae'n debygol bod yr amrywiad yn cynrychioli canran uwch fyth o achosion cyffredinol, ac mae'r ganran hon yn cynyddu dros amser.

**Pryd oeddem yn gwybod am yr achosion cyntaf yng Nghymru, a pha gamau gweithredu mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn eu cymryd?**

Mae'n anodd dweud pryd dechreuodd yr amrywiad hwn gylchredeg yng Nghymru, ond rydym yn credu y gallai'r achosion cynharaf fod o tua dechrau mis Tachwedd.

Mae Cymru yn aelod o'r Tîm Rheoli Digwyddiadau cenedlaethol sy'n cyfarfod yn ddyddiol ar hyn o bryd, gyda chyfarfodydd ehangach ddwywaith yr wythnos. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu nifer yr achosion dyddiol yn seiliedig ar ddata cyfresu, a hefyd crynodeb epidemioleg ar gyfer achosion sydd wedi'u cadarnhau. Mae Cymru wedi cyfrannu at asesiad bygythiad cyflym y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (ECDC) o'r amrywiad hwn. Mae protocol ar gyfer dull rheoli achosion i amcangyfrif a yw ailheintio'n fwy tebygol mewn achosion o'r amrywiad wedi'i ddatblygu yng Nghymru a'i rannu i'w ddefnyddio gyda Public Health England a Gogledd Iwerddon.

**A oes angen i glinigwyr wneud unrhyw newidiadau i'r cynllun rheoli ar gyfer trin eu cleifion Coronafeirws presennol?**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu bod angen math gwahanol o ofal ar unigolion yr effeithir arnynt gyda'r amrywiad hwn. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

**A yw hyn yn effeithio ar hyd y cyfnod hunanynysu?**

Nac ydy, nid yw hynny'n wir. Mae'r cyfnod hunanynysu presennol a argymhellir yn berthnasol.

**Rydw i'n byw yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru ac yn ddiweddar rydw i wedi cael prawf positif ar gyfer y Coronafeirws. Sut byddaf yn gwybod a oeddwn wedi fy heintio gyda'r amrywiad newydd?**

Bydd dadansoddiadau genomeg yn dweud wrthym ai'r amrywiad newydd ai peidio oedd y straen a heintiodd unigolyn penodol. Fodd bynnag, nid yw pob prawf positif yn cael ei gyfresu ac fel rheol mae bwlch cyn i ganlyniadau cyfresu ddod drwodd. Fodd bynnag, mae dangosyddion eraill yn rhoi syniad i ni o faint o'r amrywiad hwn sy'n bresennol yma yng Nghymru.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu bod angen math gwahanol o ofal ar unigolion yr effeithir arnynt gyda'r amrywiad hwn. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

**Rydw i'n byw gyda rhywun sydd yn y grŵp "gwarchod" blaenorol. Oes angen i mi gymryd rhagofalon ychwanegol yng ngoleuni'r amrywiad newydd hwn?**

Bydd angen i chi barhau i gymryd yr holl ragofalon a amlinellir yn y canllawiau, a dylai pobl yn y grŵp sy'n agored iawn i niwed yn glinigol gymryd rhagofalon ychwanegol i leihau cyswllt ag eraill yn unol â'r cyngor a roddir gan Brif Swyddog Meddygol Cymru.

**A fydd mwy o amrywiadau yn y dyfodol?**

Nid dyma'r amrywiad cyntaf ar y Coronafeirws, ac mae'n annhebygol mai hwn fydd yr olaf. Bydd gwahanol amrywiadau'n cael effeithiau gwahanol ar lwybr y pandemig hwn.

**A yw'n fwy niweidiol?**

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod yr amrywiad yn fwy difrifol na feirysau blaenorol. Mae hyn yn cael ei fonitro gan oruchwyliaeth ac ymchwil barhaus.

**A ddylwn i fod yn gwneud rhywbeth yn wahanol neu'n dilyn yr un rheolau ag o'r blaen?**

Nid yw'r prif reolau - golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol, ac yn y blaen - wedi newid. Ond cyhoeddwyd cyfyngiadau cynyddol oherwydd bod yr amrywiad yn haws ei ledaenu ac oherwydd bod nifer yr achosion wedi bod yn codi.

**A yw'r feirws hwn yn lledaenu'n haws drwy weithdrefnau meddygol sy'n achosi i gleifion ryddhau gronynnau o'u hysgyfaint – a elwir hefyd yn 'weithdrefnau cynhyrchu aerosol'?**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw wahaniaeth rhwng yr amrywiad hwn ac eraill. Ond mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei fonitro'n fanwl wrth symud ymlaen.

**Rydw i wedi cael brechiad COVID yn ddiweddar. A fydd yn parhau i fod yn effeithiol yn erbyn yr amrywiad newydd hwn?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na fydd y brechiad hwn a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yn y DU yn gweithio yn erbyn yr amrywiad hwn. Caiff hyn ei fonitro'n ofalus.